Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Hiraddug

**Rhodfa Thomas**
**Dyserth**
**Y Rhyl**
**Sir Ddinbych**
**LL18 6AN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Hiraddug

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Hiraddug |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 215 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 189 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 26 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 18.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 20.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/11/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynnes ac anogol sy'n galluogi pob un o'r disgyblion i deimlo'n ddiogel a hyderus. Mae disgyblion a rhieni'n gwerthfawrogi'r perthnasoedd cryf sydd ganddynt â staff ac yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn ac yn ei pharchu. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned eu hysgol. Mae staff yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad disgyblion ac yn modelu'r rhain yn gyson. Oherwydd hyn, mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda.

Mae athrawon yn darparu amrywiaeth gyffrous o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o amgylcheddau ag adnoddau da yn y dosbarth a'r awyr agored i ennyn diddordeb disgyblion mewn gweithgareddau ymarferol gwerthfawr sy'n atgyfnerthu ac yn ymestyn eu dysgu'n fuddiol. Yn yr achosion gorau, maent yn cynllunio profiadau dysgu sy'n datblygu medrau datrys problemau disgyblion ac yn meithrin eu hannibyniaeth yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn galluogi disgyblion hŷn i ddatblygu eu medrau entrepreneuraidd trwy her menter fach yn llwyddiannus iawn. Mewn ychydig o achosion, mae staff yn rhy barod i ymyrryd yn nysgu disgyblion ac mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfle i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig at amrywiaeth o ddibenion yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo gofal a lles yr holl ddisgyblion a staff yn gyson dda. Maent yn creu hinsawdd sy'n cefnogi gwaith tîm cryf ac yn meithrin cyfrifoldeb ar y cyd yn effeithiol. Mae arweinwyr yn dangos dealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn defnyddio adnoddau'r ysgol i gefnogi gwelliant yn bwrpasol, gan gynnwys trwy ddarparu dysgu proffesiynol addas ar gyfer staff. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwneud yn glir pa ddull penodol y dylai athrawon ei ddefnyddio yn eu dosbarthiadau i ysgogi'r gwelliannau bwriadedig. O ganlyniad, mae cynnydd mewn rhai blaenoriaethau yn anghyson ar draws yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn rhoi cyfarwyddyd clir i athrawon i roi gwelliannau ar waith yn gyson

A2 Sicrhau bod addysgu'n cynorthwyo'r holl ddisgyblion i ddatblygu annibyniaeth a chymryd cyfrifoldeb am ddatblygu eu dysgu eu hunain

A3 Gwella ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion

A4 Darparu cyfleoedd addas i'r holl ddisgyblion gymryd rhan mewn addoli ar y cyd

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da yn eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn unigol.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn siaradwyr hyderus. Maent yn barod i ymgysylltu â’u cyfoedion a gydag oedolion, er enghraifft i ofyn cwestiynau a mynegi eu meddyliau wrth brofi pa mor dda y mae cychod y maent wedi’u creu o becynnau wedi’u hailgylchu yn arnofio. Mae bron pob un o’r disgyblion iau yn gwrando’n astud ar stori ar y cyd ac yn ymuno’n frwdfrydig ar adegau cyfarwydd. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymestyn eu geirfa’n dda. Maent yn defnyddio iaith yn ystyriol, er enghraifft i drafod testunau cyffroadol gyda’u cyfoedion yn y dosbarth. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn mwynhau cyflwyno’u syniadau ac yn siarad â hunanhyder gyda chynulleidfa.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn effeithiol. Maent yn dangos y gallant alw seiniau cychwynnol i gof yn dda, er enghraifft wrth gymhwyso’u gwybodaeth ffonig yn ystod gweithgareddau ymarferol. Maent yn adnabod patrymau odli ac yn dechrau cyfuno seiniau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau sy’n briodol o heriol â rhuglder a chywirdeb priodol. Maent yn seinio geiriau anghyfarwydd ar goedd ac yn defnyddio lluniau i gynorthwyo’u dealltwriaeth. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn meithrin y medrau hyn yn llwyddiannus ac yn defnyddio’u darllen i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau fel brasddarllen a bwrw golwg i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol yn effeithlon. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o’r hyn y maent yn ei ddarllen ac yn cyfeirio at destunau i gyfiawnhau eu barnau. Er enghraifft, maent yn dewis tystiolaeth berthnasol o’u nofel ddosbarth i werthuso p’un a oedd rhingyll yn esgeulus tuag at y milwyr oedd dan ei reolaeth.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion iau yn dangos diddordeb a mwynhad mewn ysgrifennu. Maent yn symud o greu marciau i ysgrifennu geiriau a brawddegau byr trwy ffurfio llythrennau rheolaidd yn gynyddol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau defnyddio bylchau bysedd ac atalnodi syml yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu disgrifiadau byr, er enghraifft am gymeriadau yn stori eu dosbarth. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae datblygiad eu medrau ysgrifennu yn anghyson. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio nodweddion addas at amrywiaeth o ddibenion, er enghraifft i greu cofnodion dyddiadur a llythyrau yn gysylltiedig â’u gwaith testun yn y dosbarth. Yn yr achosion gorau, mae disgyblion yn

defnyddio geirfa fanwl gywir yn ddychmygus i greu disgrifiadau bywiog ac adroddiadau addysgiadol. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn cynllunio, yn drafftio ac yn ymestyn eu hysgrifennu yn systematig nac yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu i'w gwaith ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn defnyddio ac yn deall Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gofyn cwestiynau ac yn eu hateb â hyder cynyddol, er enghraifft i gyfarch pobl eraill a gofyn sut maent yn teimlo. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod sesiynau 'Helpwr Heddiw', fel canu caneuon Cymraeg ac ymateb i storïau. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, nid ydynt yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn ddigon da i ymestyn eu defnydd o Gymraeg llafar yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn defnyddio gwrthrychau bob dydd i gyfrif rhifau i fyny i 20, ac yn cymhwyso'u dysgu'n llwyddiannus mewn cyd-destunau ymarferol, gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau mesur trwy ddefnyddio blociau i fesur taldra'u cyfoedion. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio mesuriadau safonol yn gywir ac yn cofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o ystod dda o iaith fathemategol. Maent yn defnyddio'u medrau yn bwrpasol mewn gwersi, er enghraifft i lunio onglau main ac onglau aflymion yn ofalus a chyfrifo arwynebedd a pherimedr siapiau yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau i ddatrys problemau mathemategol yn gysylltiedig â'u gwaith testun yn hyderus. Er enghraifft, maent yn cymharu cost bwydydd organig gan ddefnyddio amrywiaeth o wefannau archfarchnadoedd ac yn cyfrifo'r pellter mae ffrwythau'n ei deithio pan gânt eu cludo o wahanol wledydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol da y maent yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio dyfeisiau llechen i gefnogi eu dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn tynnu 'hun-lun' yn annibynnol ac yn gwneud defnydd creadigol o ap peintio i dynnu llun eu hunain fel gwahanol anifeiliaid. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn hyderus i gyflwyno gwybodaeth i gynulleidfa. Er enghraifft, maent yn creu ffilm i ddangos pwysigrwydd hylendid deintyddol da gan ddefnyddio modelau clai o ddannedd y maent wedi'u creu yn y dosbarth. Fodd bynnag, mae gallu disgyblion hŷn i ddefnyddio taenlenni a chronfeydd data yn llai datblygedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl effeithiol. Maent yn defnyddio strategaethau pwrpasol i gwblhau tasgau'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfaint a chymhareb yn fedrus i greu ffosydd graddedig yn yr ardal ddysgu yn yr awyr agored. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd buddiol o'r awyr agored i ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar yn mwynhau creu rhwbiadau natur wrth ymchwilio i batrymau ar dir yr ysgol, ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn ail-greu tŷ crwn Celtaidd yn hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol yn fedrus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn dangos medrusrwydd da, er enghraifft wrth dorri allan patrymau dail a lasio mwclis yn llwyddiannus. Maent yn mentro'n briodol, er enghraifft wrth greu cyrsiau rhwystrau neu ymchwilio i beth sy'n gwneud llithren effeithiol. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u cyrff yn greadigol i greu siapiau a symudiadau anifeiliaid fel rhan o'u gwaith ar ddatgoedwigo. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau datblygu eu medrau trwy gymryd rhan mewn clybiau a chystadlaethau chwaraeon.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn frwd ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn mynd ati i wneud tasgau yn gyflym ac yn rheoli pethau sy'n tynnu sylw'n dda. Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu hysgol ac yn hapus mewn dosbarthiadau a gyda'u ffrindiau. Maent yn gwerthfawrogi'r rheolau clir sydd gan yr ysgol ac yn deall bod y rhain yn eu cadw'n ddiogel ac yn sicrhau tegwch i bawb. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu trin yn deg gan staff ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth neu gefnogaeth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad da iawn mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â staff ac yn cydweithio'n dda iawn â'u cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion yn aml yn rhannu syniadau ac yn helpu'i gilydd wrth weithio ar dasgau gyda'i gilydd. Mae disgyblion yn rhoi cymorth defnyddiol i'w cyfoedion yn y dosbarth trwy eu rôl fel 'cyfeillion dysgu', er enghraifft trwy rannu eu medr â rhifau neu sillafu. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddyfalbarhau yn eu dysgu a goresgyn heriau heb ddibynnu ar gymorth staff.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn awyddus i wneud eu gorau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn adeiladol pan fydd athrawon yn darparu cyfleoedd iddynt wella'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn barod i rannu eu syniadau am beth yr hoffent ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn awyddus i ymchwilio i'r effaith a gaiff datgoedwigo ar gynefinoedd anifeiliaid cynhenid. At ei gilydd, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau pwysig i ddod yn ddysgwyr gydol oes. Maent yn dangos gwydnwch wrth wynebu anawsterau ac yn dangos dawn greadigol pan fyddant yn cael cyfle i weithio'n annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio'n dda. Maent yn newid rhwng tasgau yn gyflym ac yn effeithlon, ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, terfir ar ddisgyblion ac maent yn dechrau tarfu ar ddisgyblion eraill pan fydd eu hathrawon yn araf yn dechrau ar weithgareddau newydd.

Caiff bron pob un o'r disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd â rolau arwain a chyfrannu at ddatblygu'r ysgol. Trwy eu grwpiau a gafodd eu hethol yn ddemocrataidd, mae disgyblion yn helpu arweinwyr yr ysgol i ymestyn y cwricwlwm, er enghraifft trwy fynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a thrwy gynorthwyo'r ffreutur i leihau gwastraff. Mae cynrychiolwyr y grwpiau disgyblion yn arwain trafodaethau synhwyrol gyda'u cyfoedion yn y dosbarth i ystyried ffyrdd y gallant wella lles ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn myfyrio'n aeddfed ar bwysigrwydd diwallu anghenion gofal anifeiliaid wrth bwyso a mesur manteision cael anifail anwes.

Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu dealltwriaeth o entrepreneuriaeth trwy brosiectau menter fach pwrpasol, fel sefydlu a chynnal 'shake-shack' iach. Maent yn cydweithio i ymchwilio i, cynllunio a threfnu eu busnes, gan ddefnyddio benthyciad cychwyn busnes i roi eu cynlluniau ar waith. Trwy'r broses hon, maent yn dysgu am gyllidebu, marchnata a gwerthu ac yn datblygu eu gallu i wneud penderfyniadau am fywyd go iawn sy'n effeithio ar lwyddiant eu menter. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau ac yn ennill profiad hanfodol o fyd gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol y mae staff yn eu darparu ar eu cyfer. Maent yn defnyddio'r cyfleoedd hyn i ddatblygu eu medrau corfforol i gryfhau eu dealltwriaeth o'r Gymraeg trwy gymryd rhan yng nghlwb yr Urdd. Mae disgyblion yn disgrifio'r modd y mae'r cyfleoedd hyn yn eu helpu i feithrin medrau sy'n berthnasol i'w diddordebau, yn cynyddu eu mwynhad o'r ysgol ac yn gwella'u lles personol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. O ganlyniad, maent wedi ymgynefino yn yr ysgol ac yn barod i ddechrau dysgu ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr a staff wedi datblygu cwricwlwm sy'n cefnogi dyhead yr ysgol 'i dyfu a dysgu gyda'n gilydd' yn effeithiol. Mae athrawon yn cydweithio mewn grwpiau blwyddyn a chyfnodau i gynllunio a chyflwyno amrywiaeth ysgogol o brofiadau dysgu. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau disgyblion, er enghraifft trwy gyfarfodydd defnyddiol y bwrdd disgyblion i drafod pa themâu i ymchwilio iddynt yn y dosbarth. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag anghenion dysgu dwys, yn elwa ar amrywiaeth gyfoethog o gyfleoedd sy'n gweddu'n dda i'w diddordeb a'u gallu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u cymell i ddysgu ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w gwaith y tu mewn a'r tu allan i'r dosbarth.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mewn sesiynau dysgu sylfaen, mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o weithgareddau ymarferol sy'n atgyfnerthu gwybodaeth disgyblion ac yn ymestyn eu dealltwriaeth yn fuddiol. Yn yr achosion gorau, mae'r cyfleoedd hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd a chyfathrebu yn gyfannol ac yn annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn cymhwyso'u dealltwriaeth o adio yn llwyddiannus trwy chwarae rôl pan fyddant yn prynu ac yn gwerthu a dewis o hufen iâ gyda haenau â chyflas sy'n amrywio o ran pris. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion adeiladu ar y medrau hyn wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn benodol, maent yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd addas i gymhwyso'u medrau mathemategol yn gynyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae cynllunio athrawon i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn llai effeithiol. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion hŷn yn benodol ysgrifennu'n estynedig neu at amrywiaeth ddigon eang o ddibenion.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu medrau datrys problemau, er enghraifft trwy greu busnesau ar raddfa fach gyda'r nod o gynhyrchu elw. Mae'r profiadau hyn yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o'r byd

gwaith yn fuddiol ac yn eu helpu i ddatblygu medrau entrepreneuraidd yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Maent yn cynllunio ymweliadau addysgol priodol â lleoedd o ddiddordeb lleol sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion, fel ymweld â chofgolofn rhyfel Dyserth i osod pabïau wedi'u creu gan ddisgyblion. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd cyfagos i ymestyn gwybodaeth disgyblion am y byd naturiol, er enghraifft trwy ymweld â rhaeadr gyfagos i wneud gwaith maes am afonydd.

Ar draws yr ysgol, ceir perthnasoedd cynnes a chefnogol rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer dysgu lle maent yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae staff yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion ac yn eu cynorthwyo i fodloni'r rhain yn gyson. Mae hyn yn helpu sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu ac yn gwneud defnydd da o'u hamser yn yr ysgol. Pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn sicrhau cydbwysedd medrus rhwng gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolyn a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn rhoi gormod o gyfarwyddyd ar gyfer dysgu'r disgyblion ac mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu cynnydd eu hunain a gwneud dewisiadau am sut i wneud eu gwaith.

Mae llawer o staff yn modelu'r Gymraeg yn dda. Mae athrawon yn defnyddio sesiynau 'Helpwr Heddiw' rheolaidd i ymgysylltu â disgyblion a hyrwyddo'r iaith yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymraeg llafar disgyblion yn adeiladu ar fedrau disgyblion yn gyson dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi arweiniad buddiol i ddisgyblion ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i lwyddo â'u gwaith. Maent yn gosod amcanion clir mewn gwersi ac yn symud dysgu disgyblion ymlaen ar gyflymdra priodol. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o holi i alw dysgu blaenorol disgyblion i gof ac arwain eu gweithgarwch yn bwrpasol. Pan mae'r addysgu'n hynod effeithiol, mae staff yn galluogi disgyblion i bennu eu llwyddiant eu hunain a myfyrio ar eu cynnydd eu hunain a chynnydd disgyblion eraill yn ystyriol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi digon o gyfle i ddisgyblion ymateb i adborth i wella'u gwaith yn llawn.

Mae arweinwyr ac athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad medrau disgyblion. Maent yn defnyddio ystod werthfawr o wybodaeth i asesu eu cynnydd a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Mae athrawon yn rhoi adroddiadau defnyddiol i rieni sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am gynnydd eu plentyn a'i agweddau at ddysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r cydlynydd ADY (CydADY) yn goruchwylio systemau cadarn ar gyfer nodi a chynorthwyo disgyblion ag ADY ac ar gyfer y rhai sydd angen cymorth emosiynol. Mae'r CydADY yn gweithio'n effeithiol gydag arweinwyr a staff ar draws yr

ysgol i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd priodol ac wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu. Mae bron pob un o'r rhieni'n gwerthfawrogi'r cymorth a gaiff eu plant. Maent yn gwerthfawrogi'r bartneriaeth gref y mae'r ysgol yn ei datblygu gyda nhw a gyda gwasanaethau cymorth, fel seicolegwyr addysg ac arbenigwyr lleferydd ac iaith.

Mae staff ar draws yr ysgol yn rhannu ymagwedd gadarnhaol a chyson at reoli ymddygiad disgyblion. Mae hyn o fudd i ddisgyblion sy'n teimlo'u bod yn cael eu trin yn deg ac yn esmwyth yn yr awyrgylch tawel a hamddenol sy'n treiddio trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant ac yn croesawu pob diwylliant a chenedligrwydd. Er enghraifft, o ganlyniad i efeillio ag ysgol gynradd yng Ngwlad Pwyl, mae disgyblion yn dysgu am ddiwylliant ei gilydd ac yn helpu eu cyfoedion yn Warsaw i ddatblygu eu medrau Saesneg. Mae athrawon yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ffydd ac ysbrydolrwydd trwy archwilio ystod o gredoau, er enghraifft trwy ddysgu am Diwali ac Eid. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth ac yn helpu disgyblion i gwestiynu rhagdybiaethau ystrydebol am wahaniaeth. Ar draws yr ysgol, fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd yn llai datblygedig.

Mae staff yn darparu ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol ac ymestyn eu dealltwriaeth ieithyddol a diwylliannol. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar fynychu rhaglen dreigl o glybiau fel pêl-fasged, yr Urdd a chodi hwyl. Mae'r ysgol yn croesawu ystod o ymwelwyr i gyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae artist rap dwyieithog yn gweithio gyda disgyblion hŷn i greu rap am yr ysgol, ac mae amrywiaeth o berfformiadau cerddoriaeth fyw yn helpu ysbrydoli disgyblion i chwarae offerynnau cerddorol. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o ymweliadau yn y fro i ehangu profiad disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn astudio daearyddiaeth yr ardal oddi uchod ar gopa mynydd yn agos at yr ysgol. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar ymweliadau preswyl sy'n cyfrannu at wella dealltwriaeth o Eryri ac yn datblygu eu hyder trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio gydag ysgolion eraill mewn digwyddiad arena mawr. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu gan gantorion a dawnswyr proffesiynol yn ystod eu hymarferion ac yn cael cyfleoedd i berfformio gyda nhw. Mae'r cyfle hwn yn codi dyheadau disgyblion ar gyfer eu perfformiad eu hunain ac yn eu helpu i gynyddu eu huchelgais a'u hyder. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr mynych i ddisgyblion gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon lleol a chynrychioli'r ysgol mewn gemau a thwrnameintiau lleol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddangos arweinyddiaeth. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae disgyblion wedi cyflwyno eu system wobrau eu hunain i annog bwyta'n iach ar ôl dysgu am bwysigrwydd diet i'w hiechyd. Mae athrawon yn galluogi disgyblion ym Mlwyddyn 6 i ddatblygu eu hentrepreneuriaeth trwy sefydlu a chynnal busnes bach. Maent yn cynorthwyo disgyblion i reoli'r broses hon yn annibynnol, o gytuno ar delerau ac amodau benthyciad cychwyn busnes i farchnata a gwerthu cynnyrch. O ganlyniad, mae disgyblion yn creu eu hwdis unigryw

eu hunain yn llwyddiannus ac yn eu gwerthu trwy blatfform siopa ar-lein i gwsmeriaid mewn gwledydd eraill.

Mae gan yr ysgol ymagwedd gadarn at ddiogelu. Mae pob un o'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau clir a sefydlwyd gan yr ysgol. Mae staff yn gwneud defnydd buddiol o gwricwlwm yr ysgol i sicrhau bod disgyblion yn dechrau deall sut gallant gadw eu hunain yn ddiogel yn eu gweithgarwch bob dydd ac ar-lein. Mae arweinwyr yn monitro cyfraddau presenoldeb disgyblion yn briodol. Maent yn cyfleu disgwyliadau clir i rieni ac yn darparu cymorth priodol pan fydd angen, er enghraifft i wella prydlondeb ychydig iawn o ddisgyblion. Mae rhieni'n gwerthfawrogi gwaith yr ysgol ac yn teimlo bod eu plant yn ddiogel ac yn derbyn gofal gan y staff yn yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn rhoi ffocws clir i waith yr ysgol. Mae'n darparu arweinyddiaeth dosturiol ac yn dangos ymrwymiad diwyro i sicrhau lles yr holl ddisgyblion a'r staff. Mae'n dangos disgwyliadau uchel trwy ei ymddygiad ei hun ac yn sicrhau bod cyfeiriad strategol yr ysgol yn cyd-fynd yn gyson â'r gwerthoedd cynhwysol sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. O ganlyniad, mae staff ar bob lefel yn rhannu ymrwymiad cryf i ethos gofalgar yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi datblygu tîm o staff ymgysylltiedig. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn cydweithio'n bwrpasol i ysgogi gwelliannau gwerthfawr. Er enghraifft, maent yn rhannu arbenigedd i ymestyn yr amgylcheddau ystafell ddosbarth a datblygu darpariaeth awyr agored yr ysgol yn llwyddiannus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu, ac ar eu mwynhad a'u cymhelliant.

Mae arweinwyr yn adolygu perfformiad yr ysgol yn bwrpasol. Maent yn darparu cyfleoedd addas i staff ystyried tystiolaeth uniongyrchol, fel gwaith disgyblion, i werthuso'r cynnydd a wna disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn datblygu dealltwriaeth ar y cyd o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae staff wedi gweithio gyda'i gilydd i nodi anghysondebau mewn addysgu ac ysgrifennu a defnyddio adborth.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod hunanwerthuso yn broses barhaus. Maent yn gweithio gyda phartneriaid o'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion i addasu cynlluniau yn sgil newidiadau i strwythur staffio'r ysgol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae CydADY yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda staff a llywodraethwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am newidiadau sy'n deillio o ddiwygiadau cenedlaethol diweddar.

Mae arweinwyr yn gosod nodau cadarn ar gyfer gwella. Maent yn canolbwyntio ar nifer ymarferol o flaenoriaethau ac yn monitro cynnydd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn rhoi cyfarwyddyd manwl gywir i athrawon am y newidiadau penodol sydd eu hangen i gyflawni gwelliant. Er enghraifft, nid yw arweinwyr wedi sefydlu dealltwriaeth glir, ar y cyd, o'r dull y dylai pob un o'r staff ei ddefnyddio i wella ansawdd ysgrifennu disgyblion. O ganlyniad, ni chaiff camau eu rhoi ar waith yn gyson bob amser, ac mae cynnydd ar ychydig o flaenoriaethau ysgol gyfan yn rhy amrywiol.

Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â rhieni. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i gynnwys rhieni yn nysgu eu plentyn. Er enghraifft, mae athrawon yn rhannu dysgu disgyblion trwy ap digidol ac yn gwahodd rhieni i'r ysgol i edrych trwy eu gwaith gyda'i gilydd.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer gwaith yr ysgol. Maent yn ystyried gwybodaeth am berfformiad yr ysgol yn drylwyr ac yn dangos dealltwriaeth gywir o'r hyn y mae'r ysgol yn ei wneud yn dda. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi dosbarthu cyfrifoldebau i oruchwylio meysydd penodol o weithgarwch gwella'r ysgol. Mae hyn yn eu helpu i fonitro cynnydd yn agosach a darparu her wybodus i arweinwyr yr ysgol. Er enghraifft, mae'r llywodraethwr cyswllt ar gyfer ADY wedi gweithio gyda'r CydADY i adolygu cynnydd disgyblion ag anghenion arbennig.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddiwyd. Er enghraifft, maent yn gwerthuso effaith y cymorth ag ymyrraeth a ddarperir trwy ddefnyddio grant datblygu disgyblion yr ysgol yn drylwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn deg i sicrhau bod disgyblion ar draws yr ystod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol yn manteisio ar yr amrywiaeth lawn o brofiadau dysgu a ddarperir gan yr ysgol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cadarn. Maent yn sicrhau yr eir i'r afael â diogelwch a lles yr holl ddisgyblion yn drylwyr trwy gwricwlwm yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod darpariaeth yr ysgol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach yn bodloni'r gofynion.

Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff yn effeithiol. Maent yn gosod amcanion perthnasol ac yn cyfarfod â staff i fonitro cynnydd a darparu cymorth priodol pan fydd angen. Maent yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng dwyn athrawon i gyfrif yn drylwyr a galluogi eu lles.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o ddysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer pob un o'r staff. Mae staff yn cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd mewn timau i fyfyrio ar eu harfer, a'i gwerthuso. Cânt gyfleoedd da i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth trwy hyfforddiant arbenigol i ymestyn agweddau penodol ar ddarpariaeth yr ysgol. Er enghraifft, mae staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant â ffocws i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o'i phartneriaethau cryf â'r clwstwr lleol o ysgolion i rannu arfer effeithiol ac adolygu agweddau ar waith yr ysgol yn wrthrychol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  01/02/2024